Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: CG/00104/22

David Rees AS,
Cadeirydd
Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru

seneddLLC@Senedd.Cymru

19 Hydref 2022

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Hydref ataf fi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, ynglŷn ag amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24 yn ymwneud â'i waith ar etholiadau datganoledig yng Nghymru. Rwyf yn ateb fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am etholiadau, ond rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol o gofio ei diddordeb mewn gwariant allan o Gronfa Gyfunol Cymru ac wrth weinyddu etholiadau gan yr awdurdodau lleol.

Nodir mai'r amcangyfrif a gyflwynir yma yw £1.414m ar gyfer 2023-24, o'i gymharu â ffigur rhagamcanol o £1.25m yn y cynllun pum mlynedd flaenorol - cynnydd o 13%. Mae'r memorandwm amcangyfrifon yn mynd rhywfaint o'r ffordd at nodi'r rhesymau sy'n gysylltiedig â phwysau chwyddiant dros hyn, yn ogystal â'r gwaith llythrennedd gwleidyddol, gan ddatblygu adnoddau addysg newydd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru. O ganlyniad i'r ffordd y mae'r amcangyfrif wedi'i gyflwyno, mae'n anodd ei gymharu â'r amcangyfrif sydd wedi'i ddarparu yn y cynllun pum mlynedd. Mae'n bosib felly y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn am sicrwydd gan y Comisiwn Etholiadol fod ystyriaeth wedi'i rhoi i arbedion effeithlonrwydd posibl i liniaru pwysau costau chwyddiant. Byddai hefyd o gymorth cael sicrwydd ffurfiol y Comisiwn na fydd y cyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru yn ymwneud ag unrhyw gynnydd mewn costau ailddalu canolog o ganlyniad i'r newid i flaenoriaethau sy'n deillio o Lywodraeth y DU.

Er gwaethaf yr uchod, gallaf gadarnhau bod y gweithgareddau a ddisgrifir gan y Comisiwn Etholiadol yn yr amcangyfrif yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch yr hyn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

y bydd ei angen yn ystod y cyfnod y mae hyn yn ei gwmpasu ac yn fforddiadwy o fewn y cronfeydd a drosglwyddwyd o Drysorlys Ei Mawrhydi.

Mae fy swyddogion wedi gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i sefydlu cytundeb talu, sy'n nodi sut y caiff y costau eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru, yn ôl y gyllideb mae'r Senedd wedi cytuno arni. Mae'r ddau daliad cyntaf ar gyfer 2022-23 wedi'u gwneud i'r Comisiwn Etholiadol ac mae proses yn bodoli ar gyfer gwneud taliadau dilynol.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution